

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

4. Gwirfoddolwyr

4.12 Gwirfoddolwyr a budd-daliadau

lles



Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cydnabod gwerth gwirfoddoli am resymau iechyd, budd cymunedol ac fel ffordd o ddatblygu sgiliau a phrofiad. Mewn llawer o achosion gall gwirfoddoli fod yn gam gwerthfawr mewn llwybr tuag at gyflogaeth â thâl.

Beth sy'n cael ei gydnabod fel gwirfoddoli?

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn cydnabod gwirfoddoli os yw gwirfoddolwr yn cael ei leoli mewn:

- elusen, mudiad gwirfoddol neu grŵp cymunedol
- mudiad sector cyhoeddus, megis cyngor lleol neu ysbyty
- menter gymdeithasol sy'n cefnogi'ch cymuned leol.

Nid yw'n cyfrif fel gwirfoddoli os yw rhywun:

- yn cynorthwyo aelod o'r teulu
- yn cael arian heblaw am fân dreuliau*, neu
- dan gontract i'w wneud (nid yw hyn yn cynnwys unrhyw 'gytundeb gwirfoddoli' sydd wedi'i lunio).

A yw gwirfoddoli'n effeithio ar fudd-daliadau?

Yn y mwyafrif o achosion ni fydd gwirfoddoli'n effeithio ar fudd-daliadau, onid yw:

- gwirfoddolwr yn cael lwfans cynhaliath
- gwirfoddolwr yn gwneud yr hyn y byddai rhywun arall fel arfer yn cael ei dalu am ei wneud
- gwirfoddolwr yn cael ei dalu unrhyw beth heblaw am gael ei ad-dalu am fân dreuliau (bydd hyn yn cyfrif fel incwm)
- gwirfoddolwr yn methu â chadw at y 'rheolau sylfaenol' er mwyn cael y budd-dal dan sylw

Fel arall gall unigolyn wirfoddoli am gynifer o oriau ag y mynna cyn belled â'i fod yn ateb y gofynion o ran chwilio am swyddi, fel y cytunwyd â'i Hyfforddwr Gwaith yn y Ganolfan Byd Gwaith.

Y rheolau sylfaenol

Lwfans Ceisio Gwaith

Er mwyn cael Lwfans Ceisio Gwaith mae angen i unigolyn fod

- wrthi'n chwilio am waith â thâl.
- yn rhydd i fynd am gyfweiliad gyda 48 awr o rybudd.

Rhaid i wirfoddolwyr ddweud wrth eu Hyfforddwr Gwaith yn y Ganolfan Byd Gwaith os ydynt yn gwneud unrhyw wirfoddoli. Rhaid iddynt hefyd roi gwybod iddynt am unrhyw daliadau a wnaed, gan gynnwys honoraria, treuliau neu daliadau mewn nwyddau megis tocynnau bwyd. Gall fod yn ddefnyddiol i wirfoddolwyr gael llythyr gan y mudiad lle maent yn gwirfoddoli sy'n amlinellu'r treuliau neu unrhyw daliadau eraill maent yn eu cael, natur y gwaith gwirfoddol a sut i gysylltu â nhw tra maent yn gwirfoddoli. Mae llythyr enghreifftiol yn yr atodiad.

Credyd Cynhwysol

Bydd hawlwr sydd wedi'u hasesu fel 'yn barod i weithio' yn cytuno gyda'u Hyfforddwr Gwaith 'ymrwymiad yr hawliwr'.

Mae ymrwymiad yr hawliwr, a oruchwylir gan Hyfforddwr Gwaith yn y Ganolfan Byd Gwaith, yn gosod tasgau dyddiol, wythnosol a misol y bydd disgwyl i'r hawliwr eu cyflawni er mwyn canfod gwaith, neu er mwyn gweithio tuag at gyflogaeth. Bwriedir i'r hawliwr weithio gyda'i Hyfforddwr Gwaith i gytuno ar amcanion cyraeddadwy, a amlinellir mewn Cynllun Gwaith Personol. Os nad yw'r hawliwr yn darparu tystiolaeth ddigonol ei fod wedi cyflawni'r amcanion a gytunwyd, gallai wynebu sancsiynau ar ei fudd-dal.

Gellid derbyn gwirfoddoli fel rhan o weithgaredd yr hawliwr i chwilio am waith, fel y cytunir â'r Hyfforddwr Gwaith. Bydd yr hyn a ystyrir yn weithgaredd gwirfoddol priodol yn cael ei ystyried yn ôl pob achos unigol fel rhan o'r sgwrs rhwng yr hawliwr a'i Hyfforddwr Gwaith. Bydd hefyd yn bwysig i wirfoddolwr drafod â'i Hyfforddwr Gwaith ba dystiolaeth o'i wirfoddoli sydd ei hangen, os oes ei hangen o gwbl.

Budd-daliadau eraill

I gael gwybodaeth ar wirfoddoli a budd-daliadau penodol eraill, gweler canllaw'r Adran Gwaith a Phensiynau/Gwirfoddoli Cymru [Canllaw i Wirfoddoli](#).

Treuliau gwirfoddolwyr a budd-daliadau lles

Mae'n arfer da cydnabyddedig i ad-dalu gwirfoddolwyr am eu mân dreuliau. Os dyma'r unig daliad a wneir i wirfoddolwyr, ac os cedwir derbynebion fel tystiolaeth, yna ni ddylai taliadau am dreuliau effeithio ar fudd-daliadau.

Mae'n dderbyniol i wirfoddolwyr gael eu talu ymlaen llaw am wariant a ragwelir.

Gweler [taflen wybodaeth 4.13](#) am fwy o wybodaeth am Dreuliau gwirfoddolwyr.

Dechrau gwirfoddolwyr newydd arni

Dylid annog gwirfoddolwyr sy'n cael budd-daliadau, sydd am wirfoddoli gyda'ch mudiad, i gysylltu â'u Hyfforddwr Gwaith yn y Ganolfan Byd Gwaith i drafod hyn. Bydd o gymorth pe baent yn mynd â llythyr gennych chi gyda nhw, fel yr un isod.

Problemau

Os ydych o'r farn fod achos gwirfoddolwr heb gael triniaeth deg neu eu bod yn cael problemau gyda budd-daliadau, cysylltwch â'ch canolfan wirfoddoli lleol neu Ddesg Gymorth WCVA ar 0800 2888 329.

I grynhoi:

- Datblygu perthynas dda gyda'ch Canolfan Byd Gwaith leol, fel eu bod yn deall natur eich gwaith gwirfoddol.
- Codi mater budd-daliadau gyda gwirfoddolwyr newydd a chyfredol.
- Annog gwirfoddolwyr i drafod eu gwirfoddoli â'u Hyfforddwr Gwaith.
- Bod yn ymwybodol o effeithiau posib taliadau treuliau ar fudd-daliadau.

Gwybodaeth bellach

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ffôn: 020 7712 2171

www.dwp.gov.uk

Yr Adran Gwaith a Phensiynau/Gwirfoddoli Cymru [Canllaw i Wirfoddoli](#).

<http://www.wcva.org.uk/volunteering/working-with-volunteers/resources?seq.lang=cy-GB>

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi

www.hmrc.gov.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Atodiad

Ffurflenni atgyfeirio

Datblygwyd y ffurflenni hyn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar y cyd â Gwirfoddoli Cymru i helpu canolfannau gwirfoddoli a Hyfforddwyr Gwaith Canolfannau Byd Gwaith yng Nghymru i gydweithio i roi'r cymorth mwyaf effeithiol i unigolion sy'n derbyn budd-daliadau ac eisiau gwirfoddoli.

Mae modd llungopïo'r ffurflenni hyn a'u defnyddio gyda'ch Canolfan Wirfoddoli leol neu gyda Hyfforddwr Gwaith gwirfoddolwr, fel sy'n briodol.



Adran Gwaith a Phensiynau



Ffurflen Ymholiad – Cyfleoedd Gwirfoddoli

Cwblhewch y ffurflen hon gyda'ch Anogwr Gwaith yn y swyddfa Canolfan Byd Gwaith lle rydych yn hawlio eich budd-daliadau. Bydd yn cael ei ddefnyddio gan eich Canolfan Wirfoddoli leol i gysylltu â chi i drafod gwirfoddoli a'r cyfleoedd presennol o fewn eich ardal.

Enw	
Dyddiad Geni	
E-bost	
Ffôn	
Cyfeiriad	
Dull Cyswllt a Ffefrir	E-bost <input type="checkbox"/> Ffôn <input type="checkbox"/> Llythyr <input type="checkbox"/>
A yw gwirfoddoli yn ffurfio rhan o'ch Ymrwymiad Hawlydd?	
Ydych chi wedi gwirfoddoli o'r blaen? Os felly, rhowch fanylion	
Ydych chi wedi cael copi o'r 'Canllaw i Wirfoddoli'	
Pa sgiliau/gwybodaeth/ cymwysterau rydych yn disgwyl i'w cael drwy wirfoddoli, os o gwbl?	
A oes unrhyw rwystrau mae angen i ni fod yn ymwybodol ohonynt, e.e. materion iechyd, cofnod troseddol?	
A oes gennych unrhyw syniadau ynghylch pa fath o wirfoddoli yr hoffech ei wneud?	
A oes unrhyw ddyddiau neu oriau nad ydych ar gael i wirfoddoli?	
Enw a manylion cyswllt yr Anogwr Gwaith e.e. ffôn, e-bost	
Datganiad: Rwy'n cadarnhau y gall y wybodaeth ar y ffurflen hon gael ei defnyddio mewn perthynas â fy ymholiad ar gyfer gwirfoddoli gan gynnwys anfon copi at fy Nghanolfan Wirfoddoli leol a'i chadw a'i phrosesu yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data.	
Llofnodwyd Dyddiad	



Adran Gwaith a Phensiynau



Hysbysiad o Wirfoddoli

Cwblhewch y ffurflen hon gyda'ch Ymgynghorydd Canolfan Wirfoddoli a fydd yn anfon e-bost i'r swyddfa Canolfan Byd Gwaith lle rydych yn hawlio eich budd-daliadau. Os oes problem, bydd eich Anogwr Gwaith y Ganolfan Gwaith yn cysylltu â chi. Gan ystyried eich bod wedi rhoi hysbysiad priodol o wirfoddoli, ni ddylai eich budd-daliadau gael eu heffeithio.

Enw	
Dyddiad Geni	
Anogwr Gwaith y Ganolfan Gwaith	
Cyfeiriad	
Rhowch enw'r sefydliad rydych yn bwriadu gwirfoddoli ar ei gyfer.	
Disgrifiwch yn fyr y tasgau a ddisgwylir i chi eu gwneud wrth wirfoddoli.	
Rhowch fanylion am y treuliau sy'n debygol o godi (e.e. teithio)	
Sawl awr yr wythnos ydych chi'n disgwyl i fod yn gwirfoddoli? (os yw'n hysbys)	
Pa sgiliau/gwybodaeth/ cymwysterau ydych chi'n disgwyl i'w cael, os o gwbl?	
Nodiadau ychwanegol	
Ymgynghorydd Canolfan Wirfoddoli a'u manylion cyswllt e.e. ffôn, e-bost	
Llofnodwch a rhowch y dyddiad.	Llofnodwyd.....Dyddiad.....

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru: 09/03/2017



Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk